------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 9 Mehefin 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(270)v5

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (30 munud)**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Cyflawni Newid yng Nghymru drwy'r Polisi Caffael (30 munud)**

**5 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Gwella'r seilwaith i ddiwallu anghenion addysg ôl-16 (30 munud)**

**6 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cyflwyno Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (60 munud)**

**7 Dadl Cyfnod 3 ar Fil Cymwysterau Cymru – Gohiriwyd i 16 Mehefin 2015**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 10 Mehefin 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 4 Mehefin 2015 i'w hateb ar 9 Mehefin 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am adroddiad Llywodraeth Cymru ar adfer safleoedd glo brig yng Nghymru? OAQ(4)2312(FM)

**2. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pa faterion y trafododd y Prif Weinidog a Phrif Weinidog yr Alban yn eu cyfarfod diweddaraf? OAQ(4)2317(FM)**W**

**3. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella economi Sir Benfro? OAQ(4)2309(FM)

**4. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi perchnogaeth cartrefi yng Nghymru? OAQ(4)2318(FM)

**5. Christine Chapman (Cwm Cynon):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael ag effeithiau camddefnyddio alcohol yng Nghwm Cynon? OAQ(4)2315(FM)

**6. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddinas-ranbarth Caerdydd? OAQ(4)2320(FM)

**7. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lwyddiant datblygiad SEACAMS? OAQ(4)2327(FM)**W**

**8. Janet Haworth (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch gosod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o dan fesurau arbennig? OAQ(4)2322(FM)

**9. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu darpariaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau iechyd trawsffiniol? OAQ(4)2316(FM)

**10. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y rhai sy'n derbyn taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal cymdeithasol yn ymwybodol o'r goblygiadau iddynt hwy os bydd system i gofrestru'n awtomatig ar gyfer pensiynau yn cael ei chyflwyno'n raddol i bob cyflogwr? OAQ(4)2319(FM)

**11. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am ei drefniadau llywodraethu? OAQ(4)2326(FM)

**12. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Prif Weinidog roi trosolwg o'r gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i radio cymunedol? OAQ(4)2321(FM)**W**

**13. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i warchod ein treftadaeth ddiwylliannol? OAQ(4)2311(FM)

**14. Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwrnod y Lluoedd Arfog 2015? OAQ(4)2314(FM)

**15. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o lefelau staffio'r GIG yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)2310(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar [dudalen y Cyfarfod Llawn]**

**Dydd Mawrth 16 Mehefin 2015 a dydd Mercher 17 Mehefin 2015**
**Dydd Mawrth 23 Mehefin 2015 a dydd Mercher 24 Mehefin 2015**
**Dydd Mawrth 30 Mehefin 2015 a Dydd Mercher 1 Gorffennaf 2015**

---

**Dydd Mawrth 16 Mehefin 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Prif Weinidog: Adroddiad Blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu (60 munud)
- Dadl Cyfnod 3 ar Fil Cymwysterau Cymru (180 munud)
- Dadl Cyfnod 4 ar Fil Cymwysterau Cymru (15 munud)

**Dydd Mercher 17 Mehefin 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog 2, 13 ac 17 mewn perthynas â Chofrestru a Datgan Buddiannau'r Aelodau a Rheolau Sefydlog 17 a 22 mewn perthynas ag Aelodaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (5 munud)

- Cynnig i gymeradwyo'r Canllawiau i Aelodau'r Cynulliad ar Gofrestru, Datgan a Chofnodi Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill ac i fabwysiadu'r Cod Ymddygiad diwygiedig (15 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Nick Ramsay (Sir Fynwy) (30 munud)

**Dydd Mawrth 23 Mehefin 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Taith Cyllideb 2015 – Buddsoddi yn y Gymru a Garem (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd: Fframwaith strategol ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Adroddiad Blynyddol Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2015 (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y Diweddaraf ar Borthladdoedd (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd: Buddsoddi mewn Cynlluniau Cyflenwi (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â risgiau sy'n ymwneud â Thanau Glaswellt yng Nghymru (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Ymateb Llywodraeth Cymru i *Addysgu Athrawon Yfory* – opsiynau ar gyfer dyfodol Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
- Gweithrediadau'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd i fynd i'r afael â thlodi (30 munud)

**Dydd Mercher 24 Mehefin 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i’r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Dadl ar Araith y Frenhines (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 30 Mehefin 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd: Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020 - Diweddariad (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol - flwyddyn ers ei chyflwyno (30 munud)
- Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chefnogi Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015 (15 munud)
- Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015 (15 munud)
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 (15 munud)
- Dadl ar adroddiad Gweinidogion Cymru ar y gydymffurfiaeth â’r ddyletswydd o dan adran 1 o Ddeddf Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (60 munud)

**Dydd Mercher 1 Gorffennaf 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru) (30 munud)